## ATODLEN 2

Rheoliadau 14, 20(1) a (3), 21(5), 23(1) a 24(2)

### Gwerthoedd targed

**Arsenig, cadmiwm, nicel a benso(a)pyren**

| *Llygrydd* | *Gwerth targed ar gyfer y cyfanswm cynnwys yn y ffracsiwn $PM_{10}$ ar gyfartaledd dros flwyddyn galendr* | *Y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid cyrraedd y gwerth terfyn* |
|---|---|---|
| Arsenig | 6 ng/$m^3$ | 31 Rhagfyr 2012 |
| Cadmiwm | 5 ng/$m^3$ | 31 Rhagfyr 2012 |
| Nicel | 20 ng/$m^3$ | 31 Rhagfyr 2012 |
| Benso(a)pyren | 1 ng/$m^3$ | 31 Rhagfyr 2012 |

**Osôn**

| *Amcan* | *Cyfnod cyfartaleddu* | *Gwerth targed* |
|---|---|---|
| Diogelu iechyd pobl | Y cymedr wyth awr dyddiol uchaf(**1**) | 120 µg/$m^3$, sef ffigur na ddylid mynd yn uwch nag ef ar fwy na 25 o ddiwrnodau fesul blwyddyn galendr ar gyfartaledd dros dair blynedd(**2**) |
| Diogelu llystyfiant | Mai i Orffennaf | AOT 40 (a gyfrifwyd o werthoedd 1 awr) ) 18,000 µg/$m^3$. awr ar gyfartaledd dros bum mlynedd(**2**) |

**$PM_{2\cdot5}$**

| *Cyfnod cyfartaleddu* | *Gwerth targed* |
|---|---|
| Blwyddyn galendr | 25 µg/$m^3$ |

(**1**) Rhaid dewis y crynodiad cymedrig wyth awr dyddiol uchaf drwy archwilio'r cyfartaleddau cyfredol wyth awr, wedi eu cyfrifo ar sail data fesul awr ac wedi eu diweddaru bob awr. Rhaid neilltuo pob cyfartaledd wyth awr a gyfrifir felly i'r diwrnod pryd y daw i ben, hynny yw, bydd y cyfnod cyfrifo cyntaf ar gyfer unrhyw un diwrnod yn ymestyn o 17:00 ar y diwrnod blaenorol hyd 01:00 ar y diwrnod hwnnw, a'r cyfnod cyfrifo diwethaf ar gyfer unrhyw un diwrnod fydd y cyfnod rhwng 16:00 a 24:00 ar y diwrnod hwnnw.

(**2**) Os na ellir canfod y cyfartaleddau tair blynedd neu bum mlynedd ar sail set lawn ac olynol o ddata blynyddol, bydd yr isafswm data blynyddol sy'n ofynnol ar gyfer gwirio cydymffurfedd â'r gwerthoedd targed yn ddata dilys am flwyddyn mewn perthynas â gwerth targed ar gyfer diogelu iechyd pobl ac yn ddata dilys am dair blynedd mewn perthynas â gwerth targed ar gyfer diogelu llystyfiant.

(**2**) Os na ellir canfod y cyfartaleddau tair blynedd neu bum mlynedd ar sail set lawn ac olynol o ddata blynyddol, bydd yr isafswm data blynyddol sy'n ofynnol ar gyfer gwirio cydymffurfedd â'r gwerthoedd targed yn ddata dilys am flwyddyn mewn perthynas â gwerth targed ar gyfer diogelu iechyd pobl ac yn ddata dilys am dair blynedd mewn perthynas â gwerth targed ar gyfer diogelu llystyfiant.